**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20fed Hydref 2008**

# CYMERADWYO CYNLLUN GWEITHREDU CYNLLUN LLEIHAU RISG DRAFFT YR AWDURDOD 2009-10

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg drafft yr Awdurdod 2009-10; nodi'r geiriad y cytunir arno gan yr Awdurdod o ran yr ymateb i'r materion a godwyd; a chyflwyno argymhellion y Panel Gweithredol ynghylch y Cynllun Gweithredu i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn.

## Cyflwyniad

**2.** Yn ei gyfarfod ym Mehefin 2008, cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod 2009-10 gan yr Aelodau at ddiben ymgynghori.

**3.** Yn unol â'r canllawiau a ddaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, caniateir 12 wythnos ar gyfer ymgynghori. Daeth ymatebion i law hyd at, ac yn cynnwys, y dyddiad cau sef Medi 5ed 2008.

## Gwybodaeth

**4.** Dosbarthwyd 500 o gopïau o'r ddogfen ymgynghorol, ac roedd fersiwn electronig ar gael ar wefan yr Awdurdod.

**5.** Rhoddwyd negeseuon i'r staff trwy'r dulliau cyfathrebu mewnol er mwyn eu hannog i gymryd rhan, a chafodd y staff a'r cynrychiolwyr eu briffio.

**6.** Daeth cyfanswm o 13 o ymatebion ysgrifenedig i law: 1 gan aelod o'r awdurdod tân ac achub, 2 gan undebau llafur yn cynrychioli staff yr ochr weithredol, 1 gan un o swyddogion cyngor sir, 6 gan staff llawn amser o'r ochr weithredol (2 wedi eu lleoli yn Wrecsam, 4 wedi eu lleoli yng Nghaernarfon, 1 wedi ei leoli yng Nghonwy, 1 wedi ei leoli yn Sir Ddinbych) ac 1 o gyfeiriad e-bost allanol.

**7.** Dadansoddwyd pob ymateb. Mae crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law mewn atodiad, ynghyd ag ymateb drafft gan yr Awdurdod.

**8.** Fel yn y blynyddoedd a fu, mae nifer o'r ymatebion a ddaeth i law eleni yn cynrychioli un o ddau safbwynt – sef nad oes digon o fanylion yn hysbys i'r Awdurdod allu gwybod i sicrwydd sut i fwrw ymlaen â'i fwriadau, neu fod gormod o fanylion wedi eu gweithio eisoes i'r Awdurdod allu gymryd ystyriaeth wirioneddol o'r ymatebion i'r broses ymgynghori.

**9.** Roedd peth cefnogaeth mewn egwyddor i wneud newidiadau i un rhan o'r gwasanaeth er mwyn buddsoddi mewn un arall, i adolygu trefniant swyddogion wrth gefn ac i gynnal adolygiad sylfaenol o risg, a dymuniad i wneud cynnydd gyda rhai materion sydd wedi bod dan drafodaeth ers sawl blwyddyn.

**10.** Tra roedd rhai ymatebion yn codi pryderon a chwestiynau ynghylch agweddau o'r bwriadau ac yn ceisio sicrwydd am y pryderon hynny, roedd rhai eraill yn dymuno gweld atal rhai o'r bwriadau am y tro hyd nes y bydd yr holl fanylion wedi eu gweithio cyn gallu eu rhoi ar waith.

**11.** Roedd nifer o'r ymatebion yn cwestiynu a oedd dau o'r pedwar bwriad (y trefniadau arlwyo a sefydlu gweithgor i adolygu risg) ar lefel ddigon uchel yn strategol i haeddu eu lle yn yr ymgynghoriad, ac roedd ambell un yn siomedig â safon y ddogfen ymgynghorol ei hun.

**Argymhellion**

**12.** Bod yr Aelodau yn:

12.1 nodi’r adroddiad sy’n crynhoi’r ymateb i’r ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gweithredu’r Cynllun Lleihau Risg drafft 2009-10;

12.2 Cymeradwyo’r ymatebion drafft i’r sylwadau a ddaeth i law, fel y gwelir yn Atodiad 1.

12.3 Cymeradwyo argymhellion y Panel Gweithredol, fel y nodir isod:

Bwrw ymlaen â’r Adolygiad o Drefniant Swyddogion Wrth Gefn er mwyn darparu adnoddau ar gyfer tîm sicrwydd yr ochr weithredol a gwaith diogelwch cymunedol.

Bwrw ymlaen â’r adolygiad o griwiau’r Peiriannau ac Ysgol ac Esgynlawr (*Aerial Ladder Platforms (ALPs*)), a phan fo’r cyfle’n codi, trosglwyddo cyllid y swyddi pwrpasol i ariannu rhagor o ymarferwyr diogelwch cymunedol gyda’r telerau a’r amodau mwyaf priodol i gwrdd ag amcanion yr Awdurdod.

Cytunwyd mai mater i’r rheolwyr yw’r trefniadau arlwyo, ac y dylid tynnu’r bwriad hwn o Gynllun Gweithredu’r Cynllun Lleihau Risg.

Cynnal adolygiad sylfaenol ynghylch Risg trwy ogledd Cymru er mwyn llunio’r Cynllun Lleihau Risg llawn yn 2009/10.